

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD MAI 2021
10 Mai 2021 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

1. Presennol

Elin Jones, Glyn Griffiths, Dion Rhys

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Datgan Diddordeb

Dim

3. Ymddiheuriadau

Eleri Owen, Dafydd Watts, Llio Griffiths

4. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 29 Mawrth 2021

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Nia Povey

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Garreg Frech

Trafodwyd y cyfarfod a gafwyd efo Meleri Tudur, yr Hwylusydd Tai Gwledig ac Eiliw Owen o ADRA, a'r angen i ystyried a ddylid ystyried anghenion tai Penrhyndeudraeth fel rhai Llanfrothen.

Teimlwyd fod yr Arolwg Anghenion Tai yn ddiffygiol a ddim yn mesur y galw'n eglur, ac nad oedd ffydd yn y data i fedru rhoi barn fel cymuned.

Cytunwyd felly y dylai'r Cyngor cymuned gynnal arolwg o'r angen am dai yng nghymuned Llanfrothen eu hunain.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn am restr etholwyr diweddaraf cymuned Llanfrothen, ac wedyn byddai angen cytuno sut y bydd holiadur yn cael ei ddanfôn at drigolion lleol, e.e. drwy ddanfôn

llythyr efo ffurflen ymateb at bob tŷ gyda rhif ar bob llythyr fel nad yw'n bosibl dyblygu atebion. Mae'n debyg y bydd angen amlen a stamp fel bod trigolion yn medru danfon eu hymatebion yn ôl yn ddiraffferth.

5.2 13 Garreg Frech

Mae'r Clerc i ysgrifennu at aelod o'r cyhoedd a danfon gwybodaeth ato fel y gall wneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus am ddiffyg gweithrediad Cyngor Gwynedd parthed 13 Garreg Frech.

5.3 Y Ganolfan

Ysgrifennodd y Clerc at Arloesi Gwynedd oherwydd maen nhw yn chwilio am ofodau gwag ac am gydweithio efo amrywiol fudiadau i roi cymorth iddyn nhw redeg prosiectau o'r gofodau gwag yma. Byddai Arloesi Gwynedd Wledig yn medru cefnogi o ran buddsoddiadau ariannol neu adnoddau, ond byddai gofyn i fudiad neu grŵp weithredu rhan helaeth y prosiect.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Y Dref Werdd i holi a fyddai ganddyn nhw ddiddordeb mewn defnyddio'r Ganolfan ar gyfer unrhyw brosiect, ac fe gytunwyd y byddai pawb hefyd yn meddwl am syniadau erbyn y cyfarfod nesaf.

5.4 Ynni Hydro Croesor

Danfonodd y Clerc lythyr Dafydd Watts ymlaen at yr ymddiriedolwyr a byddant yn ei drafod yn eu cyfarfod ym mis Mai.

5.5 Llwybr Cerdded a Beicio Llanfrothen I Benrhyn

Trafodwyd y cyfarfod a gafwyd efo Cadeirydd Cyngor Tref Penrhyndeudraeth ar 19 Ebrill, ac mi fydd Cyngor Tref Penrhyndeudraeth yn trafod y mater ymhellach yn eu cyfarfod ar 18 Mai.

5.6 Rheoli Llifogydd Dalgylch Afon Glaslyn

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am union leoliad lle mae llif yr afon Glaslyn yn cael ei heffeithio – cyfeirnod grid neu god post.

Mae'r broblem ble mae cydlifiad yr afon Gaseg i'r afon Glaslyn, ac yn ôl am Tŷ Newydd Morfa.

6. Materion Ariannol

- 6.1** Cytunwyd i dalu cyflog y Clerc am fis Ebrill yng nghyfarfod mis Mehefin gan fod disgwyl i'r taliadau talu wrth ennill gael eu cyfrifo efo'r cynnydd yn y cyflog.
- 6.2** Cytunwyd i dalu Anfoneb Scottish Power, 7 Ebrill 2021 £91.31
- 6.3** Cytunwyd i dalu Anfoneb 5607 Hyfforddiant i'r Clerc Un Llais Cymru £30.00
- 6.4** Cytunwyd i dalu BHIB £881.86 am yswiriant ar gyfer 2021/22, £872.41 oedd y swm y llynedd.
- 6.5** Danfonodd Siop a Chaffi Llanfrothen y siec a ddanfonwyd atynt am y bwyd a ddarparwyd i drigolion lleol yn ôl gan nad ydynt yn medru bancio sieciau.
- 6.6** Derbyniwyd taliad cyntaf praesept 2020/21 gan Gyngor Gwynedd yn uniongyrchol i'r Banc, 30 Ebrill 2021 £4,650.00

6.7 Cyfrif banc HSBC

Cytunwyd parthed y prif gyfrif banc, cyfrif 21041169

1. Newid enw'r cyfrifon o Gyngor Cymdeithas Llanfrothen i Gyngor Cymuned Llanfrothen
2. Rhoi enw'r Clerc ar y mandad banc
3. Ychwanegu Nia Povey, Elin Jones, Dion Roberts a Llio Griffiths fel llofnodai
4. Gwneud cais am fancio ar lein

Trafodwyd hefyd newid cyfrif rhif 41810197 sydd â balans o £881.12 yn gyfrif ar gyfer y fynwent.

Mae gan y cyfrif arall, sef Cronfa'r Cadeirydd falans o £26.52. Nid yw wedi cael ei ddefnyddio ers amser, ac felly cytunwyd y dylid rhoi ystyriaeth i'w gau, neu ei ddefnyddio fel cyfrif cadw.

7. Gohebiaeth

- Dod yn ôl at dy goed – maent yn trefnu ymgyrch i gasglu sbwriel yn ardal Llanfrothen ac yn gofyn am leoliadau ble mae sbwriel yn

tueddu i gronni. Awgrymwyd cilfan Llanfrothen i Tanlan, cilfan rhiw Tŷ Mawr, ffordd Croesor i Lanfrothen, tu ôl blwch ffôn wrth y Ring.

- Gweminar Eich Tref Eich Dyfodol
- Gweminar Parc Cenedlaethol Eryri - Adolygu mesurau rheoli ymwelwyr yn Ne'r Parc

Derbyniwyd yr uchod gwybodaeth.

8. Cynllunio

Dim

9. Materion Eraill

9.1 Tafarn Y Ring

Parheir i ddisgwyl ymateb gan Robinsons am ddyfodol tafarn Y Ring.

Mae nifer o drigolion lleol wedi ysgrifennu atynt hefyd, ac heb gael ateb.

Nodwyd fod Robinsons yn chwilio am denantiaid newydd i'r Ring a bod manylion are eu gwefan, ond siomedig oedd hi nad oedd y manylion yn sôn dim am bwysigrwydd iaith a diwylliant yr ardal.

<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf – cyfarfod o bell – 7 Mehefin 2021 am 7:30 yr hwyr.</p>
--